Hawdd ei ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cronfa dysgu creadigol

Arian ar gyfer prosiectau dysgu creadigol mewn ysgolion

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Gronfa Adfer Dysgu Creadigol '.**

**Mai 2021**

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y bydd arnoch chi angen help i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru.** Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

**E-bost:** creative.learning@arts.wales

**Ffôn:** 029 2044 1391

**Gwefan:** arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys


Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon ........................................ 2

Cynnwys ........................................................................ 3

Cyflwyniad ..................................................................... 4

Ynglŷn â dysgu creadigol ................................................. 5

Rheolau ar gyfer prosiectau dysgu creadigol .................... 6

Gyda phwy y dylai ysgolion weithio ................................... 7

Ynglŷn â Plwg ................................................................ 8

Hyfforddiant dysgu creadigol ........................................... 9

Pwy sy'n gallu gwneud cais ............................................. 10

Y pethau y byddwn ni'n talu amdanyn nhw ...................... 11

Pryd i wneud cais ........................................................... 12

Sut i wneud cais ............................................................. 13

Y pethau y bydd arnon ni eisiau gwybod ......................... 14

# Cyflwyniad

**Ni** yw **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Mae gennym **ni** raglen sy'n cael ei alw'n **ddysgu creadigol.**



Mae **dysgu creadigol** yn helpu ysgolion i wneud dysgu yn fwy creadigol a chyffrous.



Mae'n helpu dysgwyr i gael medrau newydd. A gwella hyder a lles.



Mae gennym ni arian i helpu ysgolion i wneud prosiectau **dysgu creadigol**.




Dim ond am amser byr y byddwn ni'n rhoi yr arian hwn.




Mae'r ddogfen hon ar gyfer ysgolion sydd am wneud cais am yr arian hwn.

# Ynglŷn â dysgu creadigol



Rydyn ni'n gwybod bod rhai myfyrwyr yn ei chael hi'n anodd i ddechrau dysgu eto.



Mae arnon ni eisiau i fyfyrwyr fod yn hapus yn yr ysgol. A gwneud yn dda.



Mae **dysgu creadigol** yn helpu myfyrwyr i deimlo'n well yn yr ysgol.



Mae arnon ni eisiau helpu ysgolion yng Nghymru i wneud prosiectau **dysgu creadigol**.



Gall myfyrwyr, athrawon a pherson creadigol weithio gyda'i gilydd i wneud prosiect **dysgu creadigol**.

# Rheolau ar gyfer prosiectau dysgu creadigol




Gallwch chi wneud unrhyw fath o brosiect **dysgu creadigol** rydych chi'n dymuno ei wneud. Ond mae ychydig o reolau.



Dylech chi helpu myfyrwyr sy'n ei chael hi'n anodd i ddysgu eto.



Dylech chi helpu myfyrwyr i deimlo'n dda ac yn hapus yn yr ysgol.



Dylech chi helpu myfyrwyr i fynegi eu hunain. Mae hyn yn meddwl dweud beth y maen nhw'n ei feddwl ac yn ei deimlo.



Mae'n well os yw'r prosiect yn gweithio gyda grŵp bach o fyfyrwyr.



Dylai myfyriwr wneud mwy nag un sesiwn **dysgu creadigol**.

# Gyda phwy y dylai ysgolion weithio



Dylech chi ddod o hyd i berson creadigol i weithio gydag ef cyn i chi wneud cais.



Gallwn ni eich helpu i ddod o hyd i berson creadigol.



Gallwch chi ddefnyddio arian **dysgu creadigol** i dalu'r person creadigol.



Dylai'r person creadigol gael ei dalu £250 y dydd. Neu £125 am hanner dydd.




Mae'r tâl hwn yn cynnwys yr amser sydd ei angen i gynllunio'r prosiect.




Dylai fod gan y person creadigol dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd llawn a chyfredol. Mae hwn yn wiriad i weld a oes gan rywun gofnod troseddol.

# Ynglŷn â Plwg

Os oes arnoch chi angen help i ddod o hyd i berson creadigol i weithio gydag ef, gall **Plwg** helpu.



Mae **Plwg** yn helpu pobl greadigol i ddod o hyd i bobl eraill i weithio gyda nhw. Fel ysgolion.




Gallwch chi ddefnyddio gwefan **Plwg** i chwilio am berson creadigol i weithio gydag ef.




Gallwch chi ymweld â gwefan **Plwg** yn: [plwg.cymru](plwg.cymru)

# Hyfforddiant dysgu creadigol




Mae hyfforddiant **dysgu creadigol** ar gyfer athrawon a phobl greadigol.



Mae'n rhaid i o leiaf un athro sy'n gwneud prosiect **dysgu creadigol** wneud yr hyfforddiant hwn.



Mae'n rhaid i bobl greadigol sydd heb wneud hyfforddiant gyda ni o'r blaen wneud yr hyfforddiant hwn.




Mae hyfforddiant ar ddydd Mawrth rhwng 9:30am a 12:30pm.




Mae'r sesiwn hyfforddi cyntaf ar 18 Mai 2021.




Mae'r hyfforddiant ar-lein. Gallwch chi neilltuo lle trwy glicio yma.

# Pwy sy'n gallu gwneud cais




Gall unrhyw ysgol sy'n cael ei rhedeg gan awdurdod lleol wneud cais unwaith. Mae hyn yn cynnwys ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion anghenion arbennig.



Mae'r arian ar gyfer myfyrwyr hyd at 16 oed yn unig.



Mae'n rhaid i chi gael athro fydd yn rhedeg y prosiect. Gall fod yn unrhyw athro.



Mae arnon ni eisiau clywed gennych chi ar ôl eich prosiect.



Mae arnon ni eisiau gwybod sut rydych chi wedi gwneud dysgu yn fwy creadigol a chyffrous.



Gallwch chi anfon ffilmiau, lluniau, neu storïau ysgrifenedig am eich prosiect aton ni.

# Y pethau y byddwn ni'n talu amdanyn nhw



Byddwn yn rhoi hyd at £1000 i ysgolion.



Mae'n rhaid i'r arian hwn gael ei ddefnyddio i dalu'r person creadigol.



Ni ddylai'r arian hwn gael ei ddefnyddio i dalu costau teithio.



Mae'n rhaid i ysgolion dalu am unrhyw ddefnyddiau.




Mae'n rhaid i'r prosiect bara pedwar diwrnod.




Gallwch chi rannu'r amser hwn dros gyfnod o amser mewn unrhyw ffordd y mae arnoch chi eisiau. Fel dros bedair wythnos.

# Pryd i wneud cais



Gallwch chi wneud cais am yr arian hwn unrhyw bryd o'r adeg hon.



Byddwn ni fel arfer yn cysylltu â chi o fewn dwy wythnos.




Gwnewch gais am yr arian o leiaf tair wythnos cyn y bydd arnoch chi eisiau cychwyn.




**Ni chewch** chi wneud cais **ar ôl** 5pm ar 17 Mehefin 2021.




Mae'n rhaid i'ch prosiect gael ei orffen erbyn diwedd tymor yr haf 2021.

# Sut i wneud cais




Bydd arnoch chi angen cofrestru ar ein porth ar-lein trwy glicio yma.




Yna aros am bum diwrnod gwaith.




Ar ôl pum diwrnod gwaith, gallwch chi wneud cais ar-lein.




Os oes arnoch chi angen help i ddefnyddio'r porth ar-lein, e-bostiwch ni yn creative.learning@arts.wales. Neu ffoniwch:



- **Dysgu creadigol:** 029 2044 1391
- **Llinell Gymorth:** 03301 242733

# Y pethau y bydd arnon ni eisiau gwybod




Mae'n rhaid i chi ddweud wrthyn ni am eich prosiect **dysgu creadigol**.

Bydd arnon ni eisiau gwybod:




- Am beth y bydd eich prosiect yn sôn.



- Sut y bydd eich prosiect yn helpu myfyrwyr.



- Sut y bydd eich prosiect yn gwneud dysgu yn hwyl ac yn gyffrous.



- Sut y bydd eich myfyrwyr yn dysgu rhwng sesiynau.